| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y Cyngor |
| **DYDDIAD** | 10 Rhagfyr 2009 |
| **TEITL** | Strategaeth Arbedion 2010-2013 |
| **ARGYMHELLIAD** | PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn, yn ei gyfarfod ar 10 Rhagfyr 2009, i fabwysiadu'r Strategaeth Arbedion ar gyfer 2010/11 – 2012/13, sef:-<br>(i) gweithredu'r cynlluniau a gwireddu'r arbedion yn Grŵp A a B, ond cwblhau gwaith pellach ar gynlluniau yn Grŵp B i ddatblygu a chytuno cynllun manwl, ac adrodd am benderfyniad i Fwrdd y Cyngor;<br>(ii) peidio derbyn cynlluniau yn Grŵp C yn eu ffurf gyfredol, ac awdurdodi cwblhau gwaith pellach ar gynlluniau Grŵp C, er mwyn asesu opsiynau amgen yn y maes yn ystod 2010/11, cyn dod i gasgliad terfynol ynglŷn â'r cynlluniau;<br>(iii) peidio gweithredu ymhellach ar gynlluniau Grŵp Ch ar hyn o bryd. |
| **AWDUR** | Geraint George, Pennaeth Strategol a Gwella |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | Cynghorydd Dyfed Edwards |

**1. Pwrpas yr adroddiad**

1.1 Cyflwyno argymhellion parthed pa gynlluniau o'r cwantwm sydd i'w gweithredu fel rhan o Strategaeth Arbedion 2010-2013.

**2. Cefndir a chyd-destun**

2.1 Mabwysiadwyd Strategaeth Arbedion 2010-2013 gan y Cyngor ar y 7fed o Fai 2009, yn seiliedig ar 5 rhan:

- gosod targed 0.5% effeithlonrwydd ariannol ar gyfer pob Pennaeth (ynghyd ag Ysgolion Datganoledig) cyfwerth â £1,087,000 y flwyddyn neu £3,261,000 dros 3 blynedd
- cyfraniad gan gynlluniau trawsadrannol cyfwerth â £1.75m dros y 3 blynedd
- gosod "cwantwm" cyfwerth â dwbl y targed gweddilliol i bob pennaeth sy'n cyfateb â £23m dros 3 blynedd (gan gynnwys Ysgolion Datganoledig)
- sicrhau trefniadau rheoli newid digonol
- newid trawsffurfiol ar gyfer y dyfodol.

2.2 O ran y cynlluniau 0.5% effeithlonrwydd a'r cynlluniau trawsadrannol, byddwn yn adrodd i'r drefn pwyllgorau ym mis Chwefror fel rhan o Strategaeth Ariannol y Cyngor.

2.3 O ran y camau nesaf i gytuno cynlluniau'r cwantwm, adroddir i'r:
- Gweithgor Arbedion y Prif Bwyllgor Craffu 03/12/09
- Prif Bwyllgor Craffu 08/12/09
- Cyngor Llawn 10/12/09.

**3. Camau allweddol – y "cwantwm"**

3.1 Amlinellir isod prif gamau'r Strategaeth o ran herio a chanfod barn ar 156 o syniadau a ddatblygwyd fel rhan o'r "cwantwm".

3.2 Gweithgor Arbedion y Prif Bwyllgor Craffu – fel rhan o'r broses, etholwyd 7 aelod o'r Prif Bwyllgor Craffu ar y gweithgor sef:
- Cynghorydd Seimon Glyn
- Cynghorydd Keith Marshall
- Cynghorydd Margaret Griffith
- Cynghorydd R H Wyn Williams
- Cynghorydd Dafydd Roberts
- Cynghorydd Trevor Roberts
- Cynghorydd Christopher Hughes.

3.3 Pwrpas y Gweithgor oedd craffu'r cynlluniau i arbed fesul Pennaeth ac ar draws y Cyngor a chytuno rhestr derfynol yn unol â'r cwantwm i'w chyflwyno i'r gweithdai aelodau, yn benodol:
- Sicrhau bod effaith / goblygiadau'r cynlluniau yn eglur a bod sylwadau'r pwyllgorau craffu arbennig ym mis Gorffennaf wedi eu hymgorffori
- Cwblhau asesiad effaith fesul cynllun
- Yng nghyd-destun yr achos busnes amlinellol asesu'r amserlen a'r risgiau cysylltiedig er mwyn dod i gasgliad a fyddai'r cynllun yn medru cael ei wireddu
- Yng nghyd-destun y wybodaeth gefndirol, a oes maes amlwg ar gyfer arbedion wedi ei eithrio?

3.4 Bu i waith y Gweithgor, o 16 cyfarfod yn ystod Medi / Hydref, fwydo i mewn i waith y Gweithdy Aelodau.

3.5 Gweithdy Aelodau – cynhaliwyd y sesiynau ar yr 2ail a'r 5ed o Dachwedd ble gwahoddwyd holl aelodau'r Cyngor i fynegi barn ar y cynlluniau manwl gyda 58 aelod wedi mynychu.

3.6 Gofynnwyd y cwestiwn "Ydi'r cynllun yn flaenoriaeth i gyfrannu tuag at Strategaeth Arbedion 2010-2013?" gyda phedair ymateb posib, sef:
- Ydi

- Tebygol
- Ansicr
- Na, dim ar hyn o bryd.

3.7 Sesiynau Canfod Barn - Yn ogystal â mewnbwn aelodau, cynhaliwyd 7 sesiwn canfod barn (un gyda'r sector wirfoddol, tair gyda staff a thair gyda'r cyhoedd) rhwng y 10fed a'r 12fed o Dachwedd, ble trafodwyd sampl fechan o'r cynlluniau mwy anodd o ran eu gweithredu,sef:

- Ail-gomisiynu darpariaeth preswyl pobl hyn
- Ysgolion Cynradd
- Cau Canolfan Hamdden
- Ysgolion Uwchradd
- Meini Prawf Mynediad
- Diffodd Goleuadau Stryd
- Cau Toiledau Cyhoeddus
- Codi pris cinio ysgol gynradd
- Addysg Feithrin
- Lleihau nifer aelodau
- Codi ffi ar staff i barcio.

3.8 Bu i 95 o bobl fynychu'r sesiynau canfod barn, noder mai pwrpas y cam yma oedd cael blas o farn y gwahanol grwpiau yn hytrach na chael ystadegau cynrychioladol.

3.9 Bu i'r sesiynau canfod barn gael eu hwyluso gan hwyluswyr allanol ac fe geir copi o'u hadroddiad drafft yn Atodiad 6. Fel rhan o'r sesiynau gofynnwyd i'r grwpiau daro pleidlais ar y cynlluniau unigol drwy ateb y cwestiwn:
"Pa mor deg yw hi i'r cynllun uchod gael ei ystyried fel rhan o Strategaeth Arbedion 2010-2013?

- Ydi, mae'n deg
- Efallai
- Dim o gwbl"

Ceir asesiad bras o'r pleidleisiau yn Atodiad 7.

3.10 Undebau Llafur - Yn unol â threfn y Cyngor mae trafodaethau rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng yr Adran Adnoddau Dynol a'r undebau. Mae gwybodaeth am y toriadau arfaethedig wedi ei gyflwyno i'r undebau a bydd trafodaethau yn parhau drwy'r drefn arferol sy'n cynnwys cyfres o gyfarfodydd misol a chwarterol.
Yn gyffredinol, mae'r undebau yn ymrwymedig i weithio gyda'r Cyngor i gyflawni'r arbedion angenrheidiol mewn ffordd gyfiawn. Maent yn nodi na ddylid diswyddo'n orfodol ond y dylid ceisio adnabod gwirfoddolwyr. Nodir hefyd na ddylai staff sy'n parhau i gael eu cyflogi gan y Cyngor wynebu cynnydd yn eu llwyth gwaith o ganlyniad i unrhyw arbedion a wireddir.

**4. Crynodeb ac argymhellion**

4.1 Mae'r broses o ddatblygu'r argymhellion wedi cynnwys y Tîm Arweinyddiaeth a'r Uwch Arweinyddion Portffolio, Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol a'r Penaethiaid Adran.

4.2 Amlinellir isod grynodeb o'r cynlluniau yn y grwpiau penodol a chrynodeb fesul pennaeth yn Atodiad 5.

4.3 O ran yr argymhellion noder y canlynol:

- Grŵp A - Argymhelliad i'w gweithredu a gwireddu'r swm, gyda'r rhan helaeth ohonynt yn gynlluniau bach h.y. llai na £50,000 ac asesiad effaith isel, a / neu wedi derbyn cefnogaeth dros 60% yn y categori 'Ydi' yn y sesiynau canfod barn aelodau
- Grŵp B - Argymhelliad i'w gweithredu a gwireddu'r swm, ond bod angen gwaith pellach i ddatblygu a chytuno cynllun manwl gan adrodd am benderfyniad i Fwrdd y Cyngor . Mae'r cynlluniau yma wedi derbyn dros 50% o gefnogaeth 'Ydi' a 'Tebygol' yn y sesiynau canfod barn aelodau
- Grŵp C - Angen cwblhau gwaith pellach i asesu opsiynau amgen yn y maes yn ystod 2010/11, cyn dod i gasgliad terfynol yn hytrach na derbyn y cynllun yn ei ffurf bresennol
- Grŵp Ch - Dim i'w gweithredu ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn, yn ei gyfarfod ar 10 Rhagfyr 2009, i fabwysiadu'r Strategaeth Arbedion ar gyfer 2010/11 – 2012/13, sef:-**

**(i) gweithredu'r cynlluniau a gwireddu'r arbedion yn Grŵp A a B, ond cwblhau gwaith pellach ar gynlluniau yn Grŵp B i ddatblygu a chytuno cynllun manwl, ac adrodd am benderfyniad i Fwrdd y Cyngor;**

**(ii) peidio derbyn cynlluniau yn Grŵp C yn eu ffurf gyfredol, ac awdurdodi cwblhau gwaith pellach ar gynlluniau Grŵp C, er mwyn asesu opsiynau amgen yn y maes yn ystod 2010/11, cyn dod i gasgliad terfynol ynglŷn â'r cynlluniau;**

**(iii) peidio gweithredu ymhellach ar gynlluniau Grŵp Ch ar hyn o bryd.**

| | **2010/11 £** | **2011/12 £** | **2012/13 £** | **Cyfanswm £** |
|---|---|---|---|---|
| **Grwp A (gweler Atodiad 1)** – Argymell eu gweithredu a gwireddu'r arbediad | £2,090,371 | £2,222,126 | £2,402,040 | £6,714,537 |
| **Grwp B (gweler Atodiad 2) –** Cynlluniau i'w gweithredu a gwireddu'r arbediad, gwaith pellach i ddatblygu a chytuno cynllun manwl gan adrodd am benderfyniad i Fwrdd y Cyngor | £393,630 | £373,970 | £2,520,387 | £3,287,987 |
| **Cyfanswm** | **£2,484,001** | **£2,596,096** | **£4,922,427** | **£10,002,524** |

| | 2010/11<br>£ | 2011/12<br>£ | 2012/13<br>£ | Cyfanswm<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| **Grwp C (gweler Atodiad 3)** – Angen cwblhau gwaith pellach i asesu opsiynau amgen yn y maes yn ystod 2010/11 cyn dod i gasgliad terfynol yn hytrach na derbyn y cynllun yn ei ffurf bresennol | £264,990 | £1,358,920 | £1,012,964 | £2,636,874 |
| **Grwp Ch (gweler Atodiad 4) –** Dim i'w gweithredu ar hyn o bryd | £1,950,000 | £6,835,000 | £2,102,370 | £10,887,370 |